**GORCHYMYN CYNGOR SIR PENFRO**
**(MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD) (CYDGRYNHOI) 2011**
**(GORCHYMYN AMRYWIO RHIF 15 2025)**

---

Mae Cyngor Sir Penfro, wrth arfer ei bwerau o dan adrannau 32 a 35 o, ac Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (“Deddf 1984”) ac fel y’i diwygiwyd, a darpariaethau Deddf Rheoli Traffig 2004 a phob pŵer galluogi arall yn y Ddeddf, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu, yn unol ag Atodlen 9 i Ddeddf 1984, drwy hyn yn gwneud y gorchymyn a ganlyn:-

Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar 1af Mai a gellir ei ddyfynnu fel Gorchymyn Cyngor Sir Penfro (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) (Cydgrynhoi) 2011 (Gorchymyn Amrywio Rhif 15).

Bydd yr Atodlen (“yr Atodlen”) i Orchymyn Cyngor Sir Penfro (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) (Cydgrynhoi) 2011, a ddaeth i rym ar 1 Chwefror 2011, yn cael ei amrywio er mwyn cynnwys y canlynol:-

1. Cyflwyno tariff dros nos ar gyfer cartrefi modur / faniau gwersylla yng ngholofn 7 yr Atodlen ym man parcio rhif 13.

**ATODLEN 1**

| | Enw’r man parcio | Safle lle gall cerbyd aros | Dosbarth y cerbyd | Oriau a dyddiau gweithredu’r man parcio a’r **cyfnod codi tâl** | Cyfnod Hiraf y gall Cerbyd aros | Graddfa Taliadau Arfaethedig am Bob Man Parcio |
|---|---|---|---|---|---|---|
| [1] | [2] | [3] | [4] | [5] | [6] | [7] |
| 13 | Goodwick Moor, Wdig | Yn gyfan gwbl o fewn cilfan barcio | 1,2,3,4,5,6, 7,8,9,10,11 | Dim terfyn | 24 awr a deiliaid trwyddedau parcio | **Arhosfan dros nos ar gyfer fan wersylla / cartref modur –**<br><br>**£10 y noson, am uchafswm o un noson.**<br><br>**Rhwng 7pm a 9am bob dydd** |

**Dyma ddosbarthiadau’r cerbydau y cyfeirir atynt uchod:**

**Dosbarthiadau cerbydau**

1 Beiciau modur unigol
2 Cerbydau cofrestredig i’r anabl
3 Ceir modur
4 Cyfuniadau o feiciau modur
5 Cerbydau modur sydd â phwysau cerbyd gros o lai n 3.5 tunnell neu sy’n llai na 5.5 metr o hyd
6 Ôl-gerbydau
7 Carafanau
8 Cerbydau modur sydd â phwysau cerbyd gros o fwy na 3.5 tunnell ac sy’n fwy na 5.5 metr o hyd
9 Coetsys
10 Cychod a/neu ôl-gerbydau cychod sy’n llai na 3.5 tunnell neu 5.5 me hyd
11 Cychod a/neu ôl-gerbydau cychod sydd dros 3.5 tunnell neu 5.5 met hyd

**Diffiniadau parcio:**

**Arhosfan dros nos ar gyfer cartrefi modur / faniau gwersylla**

**Codir tâl rhwng 7pm a 9am i ganiatáu parcio dros nos mewn cartref modur / fan wersylla, a chysgu mewn maes parcio penodol yn y sir, am gyfnod o ddim mwy nag un noson ag amodau –**

- Parcio dros nos a chysgu – arhosiad o ddim mwy nag un noson.
- Nid oes hawl storio dodrefn y tu allan i’r cerbyd.
- Nid oes hawl codi cysgodlenni na gorchuddion eraill.
- Nid oes hawl stori poteli nwy petrolewm hylifol y tu allan.
- Nid oes mannau gwastraff nac ailgylchu yn cael eu darparu (ond bydd lleoliad y maes parcio yn agos at doiledau cyhoeddus)

**RHODDIR** o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Penfro ar y …. diwrnod hwn o ….. 2025

Rhoddwyd **SÊL GYFFREDIN**

**CYNGOR SIR PENFRO**

ym mhresenoldeb:-

Llofnodwr Awdurdodedig